# Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg – Cyngor Sir Fynwy

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3172A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham | 4 |
| Sefyllfa ariannol | 6 |
| Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | 9 |
| Cynllun lleihau carbon | 10 |

# Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe gynhaliom ni'r prosiect hwn i ganfod lefel y sicrwydd archwilio a/neu ble y gallai gwaith archwilio pellach fod yn ofynnol mewn blynyddoedd yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i allu'r Cyngor i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Fe helpodd y prosiect hwn ni hefyd i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd lle'r ydym wedi gwneud gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg mwy manwl. Byddwn hefyd yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yn hydref 2022 a fydd yn crynhoi ein holl waith archwilio a wnaed ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Ionawr 2022.

3 Fe ganolbwyntiom ni'n arbennig ar y meysydd canlynol yn y Cyngor:

- Sefyllfa ariannol
- Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Cynllun lleihau carbon

4 Roedd ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys cyfweliadau gydag uwch swyddogion ac adolygu dogfennau perthnasol.

5 Mae'r prosiect Sicrwydd ac Asesu Risg wedi bod yn mynd rhagddo trwy gydol y flwyddyn. Fe gynhaliom ni weithdy gyda'r Uwch Dîm Arwain ym mis Mawrth 2022 lle gwnaethom rannu canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â rhai agweddau ar y gwaith hwn. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio'r gweithdy i gasglu safbwyntiau uwch reolwyr am y risgiau archwilio allweddol mewn perthynas â'r Cyngor ac i oleuo ein gwaith blaengynllunio.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor ddatblygu ei ddealltwriaeth am ei ôl troed carbon ei hun ymhellach a defnyddio'r data hwn ar ôl ei fireinio i oleuo ei Strategaeth wedi'i diweddaru ar Argyfwng yr Hinsawdd. |
| A2 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei gamau gweithredu arfaethedig i gyrraedd statws sero net erbyn 2030:<br>• wedi'u costio'n llawn o ran eu heffaith ar allyriadau carbon a'u heffaith ariannol i'w alluogi i flaenoriaethu camau gweithredu; ac<br>• wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a'i Strategaeth Gyfalaf. |
| A3 | Dylai'r Cyngor ddatblygu set gadarn o fetrigau i fesur y cynnydd ar ei daith tuag at ddatgarboneiddio ac adrodd ar y cynnydd hwnnw. |

# Sefyllfa ariannol

## Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i wella sefyllfa ariannol y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, ond bydd ei gynlluniau i gyflawni cydnerthedd ariannol dros y tymor canolig a chylchoedd y gyllideb yn y dyfodol yn parhau i fod yn gryn her yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol

6 Fe wnaethom adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022. Roedd hyn yn cynnwys ystyried sefyllfa cronfeydd ariannol wrth gefn y Cyngor, y modd y cyflawnir arbedion wedi'u cynllunio a pherfformiad yn erbyn y gyllideb a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn.

7 Fe wnaethom hefyd gyhoeddi Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2022 sy'n cynnwys ystod o ddata ariannol ar gyfer cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

### Strategaeth ariannol

8 Canfu ein gwaith blaenorol ar gynaliadwyedd ariannol nad oedd gan y Cyngor strategaeth ariannol eto i ategu cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig oherwydd, er y gallai'r Cyngor adnabod ei fwlch o ran cyllid yn y tymor canolig, roedd heriau'n dal i fodoli wrth geisio'i gau. Fe awgrymon ni y gallai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig trwy ddatblygu dull tymor hwy o weithredu cynlluniau arbedion a mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r amcangyfrifon o'r pwysau o ran costau yn y dyfodol.


9 Mae'r Cyngor yn deall bod angen gwaith pellach i ddatblygu ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Adlewyrchir y bwriad hwn mewn adroddiadau diweddar ar y gyllideb i'r aelodau, ac mae swyddogion yn bwriadu gweithio gyda'r weinyddiaeth newydd i ganlyn arni â chynlluniau i gryfhau'r CATC.

10 Mae setliadau cyllid dangosol Llywodraeth Cymru ar sail Cymru gyfan o 3.4% a 2.5% yn y drefn honno ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn darparu rhywfaint o sicrwydd ynghylch cyllid dros y tymor canolig. Fodd bynnag, bydd cynlluniau ariannol tymor canolig yn dal i ddibynnu ar ystod o dybiaethau, a phan fo hyn yn cael ei gyfuno â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol newidiol yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol, bydd cynllunio ar gyfer cydnerthedd ariannol a chylchoedd y gyllideb yn y dyfodol yn dal i fod yn gryn her i gynghorau.

11 Mae bwlch cronnol rhagamcanol y Cyngor o ran cyllid wedi lleihau £1.7 miliwn dros 2021-22, o £14.7 miliwn ym mis Mawrth 2021 i £13 miliwn ym mis Mawrth 2022. Mae'r sefyllfa well hon yn adlewyrchu'r setliadau dangosol a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru ym mlynyddoedd y Cynllun yn y dyfodol.

**Arddangosyn 2: mae cyfanswm bwlch rhagamcanol y Cyngor o ran cyllid dros y tymor canolig yn £13 miliwn – £1.7 miliwn yn is na rhagolygon y llynedd**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid yn y tymor canolig a adnabuwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022[1]. Mae'r ffigyrau blynyddol yn rhai cronnol.




12 Nid yw'r Cyngor wedi adnabod yr arbedion y bydd angen eu gwneud yn ystod blynyddoedd diweddarach ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig eto, a gydnabyddir yn y diweddariad o'r CATC ym mis Ionawr 2022. Mae swyddogion yn cydnabod yr angen i ddatblygu a chyflawni rhaglen o arbedion wedi'u cynllunio sy'n gynaliadwy i helpu i gau'r bwlch yn y gyllideb yn y tymor canolig ac maent yn bwriadu datblygu hyn gyda'r Cyngor newydd. Wrth wneud hynny, bydd angen i'r Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae dull tymor hwy o gynllunio arbedion yn lleihau'r risg y bydd angen gwneud arbedion heb eu cynllunio a/neu rai anghynaliadwy nad ydynt yn gyson ag amcanion strategol y Cyngor.

13 Cafodd yr aelodau Gynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru ym mis Ionawr 2022 fel rhan o gynigion y gyllideb ddrafft, gan ddarparu cyfle digonol ar gyfer craffu. Mae ein gwaith blaenorol wedi dangos bod gan swyddogion olwg dda ar newidiadau a fyddai'n effeithio ar y tybiaethau yn y CATC a'u bod yn eu diweddaru fel y bo angen. Er enghraifft, roedd cynigion terfynol y gyllideb ar gyfer 2022-23 a argymhellwyd gan y Cabinet ac a dderbyniwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth yn cynnwys newidiadau pellach i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf gyda'r pwysau o ran costau a thybiaethau eraill.

[1] Ffynhonnell: Adroddiadau'r gyllideb refeniw ar gyfer 2021-22 a 2022-23 a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021 a 2022.

## Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

14 Yn 2019-20 a 2020-21, fe gynyddodd y Cyngor falansau ei gronfeydd wrth gefn ar ôl sawl blwyddyn o ostyngiadau. Dengys **Arddangosyn 2**, ar ddiwedd 2020-21, fod lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy – mewn termau absoliwt ac fel canran o gost net gwasanaethau – ar eu lefel uchaf mewn pum mlynedd. Fodd bynnag, mae lefelau cronfeydd wrth gefn yn dal i fod yn gymharol isel pan gânt eu cymharu ag awdurdodau eraill Cymru.

**Arddangosyn 3: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn a oedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2021-22 a'r pum mlynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu[2].

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy mewn £ miliynau [3] | 15.2 | 14.7 | 13.5 | 14.9 | 23.0 | 33.6 |
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau | 10.3% | 9.9% | 8.8% | 9.4% | 14.0% | 19.7% |
| Cymhariaeth â chynghorau eraill Cymru | 18th | 20th | 20th | 19th | 20th | Ddim ar gael eto |

15 Ym mis Gorffennaf 2022, fe gymeradwyodd y Cabinet argymhellion gan swyddogion i drosglwyddo gwarged diwedd blwyddyn 2021-22 i'r cronfeydd wrth gefn. Fe gynyddodd hyn y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i £33.6 miliwn, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi newydd i helpu i fynd i'r afael ag effaith barhaus y pandemig a phwysau chwyddiant.

16 Mae'r aelodau'n cael diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn ac yn cymeradwyo penderfyniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn neu ychwanegu atynt. Mae adroddiadau ar y gyllideb yn darparu gwybodaeth gyd-destunol hefyd i helpu i oleuo penderfyniadau mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn.

[2] Ffynhonnell: 2016-17–2020-21: Offeryn data cynaliadwyedd ariannol Archwilio Cymru; 2021-22: Datganiad alldro'r Cyngor

[3] Rydym yn defnyddio'r term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i olygu cyfanswm balans y cronfeydd wrth gefn cyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio at ddiben arall.

### Cyflawni arbedion

17 Canfuom yn flaenorol fod gan y Cyngor hanes amrywiol o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio a bod y pandemig wedi effeithio ar eu cyflawni. Rhwng 2016-17 a 2020-21, fe gyflawnodd y Cyngor rhwng 66% a 93% o'i arbedion wedi'u cynllunio.

18 Yn 2021-22 fe gyflawnodd y Cyngor £4.4 miliwn o'i £4.7 miliwn o arbedion wedi'u cynllunio (93%). Gan bod y Cyngor wedi cyflawni gwarged ar y cyfan ar ddiwedd y flwyddyn, ni chafodd y £309,000 o arbedion a oedd heb eu cyflawni unrhyw effaith arwyddocaol ar y gyllideb, ond yn y dyfodol bydd hi'n bwysig i'r Cyngor gyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio i helpu i gau'r bwlch rhagamcanol yn ei gyllideb.

### Perfformiad yn erbyn y gyllideb

19 Fe wnaethom nodi mewn adroddiad blaenorol bod gan y Cyngor hanes da o gyflawni yn erbyn ei gyllideb ar y cyfan, gan wario llai na'r gyllideb fel arfer. Fodd bynnag, ceir pwysau sylweddol o ran costau a gorwariannau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth ac fe gyflawnir tanwariannau ar y cyfan fel arfer trwy gamau gweithredu yn ystod y flwyddyn nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor hir.

20 Ar gyfer 2021-22, nododd y Cyngor fod ganddo warged o £5.6 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Fe arweiniodd pwysau o ran costau a oedd yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol, plant sy'n derbyn gofal a gofal maeth at ddiffygion ar ddiwedd y flwyddyn yn y cyfarwyddiaethau Plant a Phobl Ifanc (£1 filiwn) a Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Diogelu (£14,000). Er bod pob cyfarwyddiaeth arall wedi gwario llai na'r gyllideb, cyflawnwyd hyn yn rhannol â chyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a nifer o swyddi gwag o fewn gwasanaethau.

21 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod dal swyddi gwag i gyflawni arbedion yn anghynaliadwy ac y bydd angen iddo gyllido pwysau parhaus o ran costau sy'n gysylltiedig â'r pandemig wedi i gyllid caledi Llywodraeth Cymru ddod i ben. I helpu i fynd i'r afael â hyn, mae'r Cyngor yn creu cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ychwanegol â'i warged diwedd blwyddyn yn 2021-22 ac mae wedi trefnu bod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer pwysau o ran costau fel rhan o'r gyllideb refeniw yn 2022-23.

# Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Mae'r Cyngor yn sefydlu trefniadau i'w sicrhau ei hun ei fod yn ateb gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

22 Fe gynhaliom ni ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran ymateb i ofynion allweddol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2022. Casglwyd y dystiolaeth trwy gyfweliadau ac adolygiadau o ddogfennau, ac roedd hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau perthnasol o'n gwaith

parhaus arall yn y Cyngor. Bwriodd ein gwaith olwg ar y trefniadau y mae'r Cyngor yn eu sefydlu i ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf).

23 Mae'r Cyngor yn deall yr hyn y mae angen iddo'i wneud i ateb gofynion y Ddeddf ac mae wedi nodi hyn mewn cynllun gweithredu.

24 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adolygu eu perfformiad yn rheolaidd ac ymgynghori ac adrodd ar berfformiad trwy hunan-asesiad. Rhaid i gynghorau gyhoeddi hunan-asesiad o'u perfformiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cafodd hunan-asesiad drafft y Cyngor o'i berfformiad yn 2021-22 ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2022 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i gael ei gymeradwyo ym mis Medi 2022. Mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i adolygu a mireinio'i drefniadau hunan-asesu, gan ystyried adborth gan yr Aelodau a gwersi o'r flwyddyn gyntaf hon o'r broses newydd.

25 Fe wnaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried fersiwn ddrafft o Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd [y Strategaeth] ym mis Medi 2021. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar helpu trigolion i ddeall y broses ddemocrataidd a sut y gallant gael eu cynnwys. Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2022, mae'r aelod Cabinet â chyfrifoldeb am ymgysylltu â'r cyhoedd wedi sefydlu gweithgor i ystyried ymgysylltiad yn ehangach. Er bod cwmpas y gwaith hwn yn mynd y tu hwnt i ofynion y Ddeddf, bydd yn goleuo'r Strategaeth cyn ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a chyn iddi gael ei mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor.

26 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf ac mae wedi rhedeg sesiynau sefydlu ar gyfer aelodau'r pwyllgor. Ar adeg ein hadolygiad ni, roedd y Cyngor wrthi'n ceisio recriwtio'r aelod lleyg terfynol i gwblhau aelodaeth y Pwyllgor. Mae hefyd wedi adolygu disgrifiadau rôl ei bwyllgor ac mae wedi diwygio'i gyfansoddiad i adlewyrchu gofynion y Ddeddf.

# Cynllun lleihau carbon

## Cyd-destun

27 Ym mis Gorffennaf 2022, fe gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol yr adroddiad Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd yn bwrw golwg ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr holl gynghorau. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais cyffredin i fod â sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei wireddu. Canfu ein gwaith rwystrau sylweddol, cyffredin i gynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â hwy ar y cyd i wireddu'r uchelgais cyffredin. Canfuom, er eu bod yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, fod rhaid i gyrff cyhoeddus fynd ati yn awr i gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu'r cydweithio a gwneud datgarboneiddio'n ganolog i'w gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

28 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad ganlynol am weithredu gan gyrff gyhoeddus:

- cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithio effeithiol;
- egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu eich cyflymder gweithredu;
- mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
- gwybod eich bylchau mewn sgiliau a chynyddu eich gallu; a
- gwella ansawdd data a monitro i gefnogi eich penderfyniadau.

29 Fe gynhaliom ni asesiad o drefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Datgarboneiddio rhwng mis Mehefin a mis Awst 2022. Roedd ein gwaith yn cynnwys ffocws ar eglurder gweledigaeth y Cyngor, ei drefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a gwaith atal yn ogystal â monitro ac adolygu cynnydd. Fe wnaethom gasglu tystiolaeth trwy gyfweliadau, adolygiadau o ddogfennau ac ymateb y Cyngor i'r Alwad am Dystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad Sylfaenol o Ddatgarboneiddio.

30 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar gynllun gweithredu'r Cyngor ar ddatgarboneiddio. Mae'r canfyddiadau hyn yn eistedd o fewn cyd-destun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 sy'n galw am fwy o gyflymder ac arweinyddiaeth gryfach ledled Cymru i leihau allyriadau carbon.

## Mae'r Cyngor wedi nodi ei uchelgais a set arfaethedig o gamau gweithredu i gyrraedd sero net erbyn 2030 ond nid yw wedi blaenoriaethu'r camau gweithredu hynny na'u costio'n llawn eto

31 Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei daith ddatgarboneiddio y mae wedi'i hamlinellu yn ei Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar Argyfwng yr Hinsawdd (y Strategaeth) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021. Mae hyn yn cynnwys sawl ymrwymiad eglur mewn perthynas â newid hinsawdd a datgarboneiddio ar lefel y Cyngor ac ar lefel ranbarthol. Mae gan newid hinsawdd a datgarboneiddio broffil strategol yn y Cyngor ac ym mis Mai 2019 fe ddatganodd ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd. Adlewyrchir y ffocws hwn ar ddatgarboneiddio hefyd yn un o'i Nodau Strategol 'i gynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig' ac mae wedi cael ei adnabod yn risg strategol gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn y broses o ailddrafftio'r Strategaeth i sicrhau ei bod yn fwy cyson â thrywydd Llywodraeth Cymru tuag at sero net ac i gynnwys meysydd blaenoriaeth ychwanegol megis natur a dŵr. Fe gynhaliwyd asesiad effaith integredig o'r Strategaeth a wnaeth ystyried ei chyfraniad at y Nodau Cenedlaethol a'r pum ffordd o weithio, er nad yw'r cyfraniad hwn yn cael ei adlewyrchu'n glir yn y Strategaeth ei hun.

32 Mae'r Cyngor yn deall ei ôl troed carbon ac mae wedi cyflwyno'i ddata i Lywodraeth Cymru fel rhan o'i ffurflen sero net. Mae'r Strategaeth yn cynnwys peth data ôl troed ar lefel y sir er nad yw'n darparu dadansoddiad o ôl troed carbon y

Cyngor ei hun ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i wella'i ddealltwriaeth a chadernid y lefel gyfredol o allyriadau o'i wasanaethau ei hun a'i gadwyn gyflenwi i'w gynorthwyo i blotio llwybr tuag at sero net, megis y gwaith gyda Chyngor Caerdydd ar brosiect i wella'r data ar effeithiau carbon eu cadwyn gyflenwi. Er bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio a'i fod yn defnyddio hyn i helpu i lunio'i daith ddatgarboneiddio, nid yw eto wedi cynnal asesiad llawn o effaith ei daith ddatgarboneiddio ar garbon a chostau. Rydym yn deall heriau gwneud hynny, ond bydd y data hwn yn galluogi'r Cyngor i flaenoriaethu ei gamau gweithredu yn y meysydd hynny a fydd yn dwyn yr adenillion mwyaf yn gymdeithasol, yn ariannol ac o safbwynt carbon.

33 Ceir nifer o fecanweithiau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i fonitro cynnydd gyda'i daith ddatgarboneiddio. Mae'r rhain yn cynnwys darparu diweddariadau ar ei Gynllun Gweithredu ar gyfer y Cabinet a'r Cyngor, hefyd trwy Grŵp Strategaeth Argyfwng yr Hinsawdd a arweinir gan swyddogion a Gweithgor Argyfwng yr Hinsawdd a arweinir gan Aelodau. Fe wnaethom nodi nad yw'r ail o'r ddau yma wedi cael ei ailsefydlu eto yn dilyn ffurfio'r weinyddiaeth newydd. Bydd effaith negyddol ar allu'r grwpiau hyn i fonitro a gwerthuso cynnydd yn effeithiol os na fydd data allweddol megis effaith yr ymyriadau arfaethedig ar garbon a chostau ar gael iddynt. Er bod y Cyngor wedi cyflwyno rhai metrigau mewn perthynas â datgarboneiddio a newid hinsawdd yn y fforymau hyn, ar hyn o bryd nid oes unrhyw dargedau sy'n gerrig milltir penodol ar gyfer lleihau carbon na phroses ar gyfer adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd gyda'r rhain. Bydd yn bwysig bod mesurau a thargedau datgarboneiddio'n cael eu cynnwys yn ei Strategaeth wedi'i diweddaru er mwyn iddo allu dangos cynnydd ar ei daith ddatgarboneiddio.

34 Roedd y Cyngor wedi ymgysylltu â dinasyddion i ddatblygu ei Strategaeth gyfredol. Goleuwyd hyn gan sesiwn ymgynghori bwrpasol gyda'i Rwydwaith Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd allanol, sesiwn ymgynghori ar sail galw heibio i drigolion ac arolwg ar-lein. Deallwn y bydd y Strategaeth wedi'i diweddaru'n defnyddio dull ymgysylltu tebyg hefyd a hwnnw'n cael ei ategu gan yr ymgysylltu arfaethedig a fydd yn digwydd dros yr ychydig fisoedd nesaf ynghylch Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau newydd y Cyngor, a fydd hefyd yn ymgorffori datgarboneiddio.

35 Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill a chyda'r sector preifat i gefnogi ei daith ddatgarboneiddio. Fe flaenoriaethodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Fynwy newid hinsawdd fel un o'i heriau mwyaf. Mae Bwrdd Partneriaeth yr Amgylchedd wedi goruchwylio nifer o brosiectau byrdymor lle mae cydweithio rhwng Partneriaid y BGC yn helpu i leihau allyriadau megis Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd, Grid Gwyrdd Gwent, ac ehangu'r rhwydwaith gwefru trydan. Mae gwaith rhanbarthol yn mynd rhagddo hefyd gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Ranbarthol y bydd Cynlluniau Ynni Ardal Leol y Cyngor ei hun yn cael eu datblygu ohono. Mae'r Cyngor hefyd yn arwain ar brosiectau dan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, megis profi meddalwedd i greu 'efell digidol' i helpu i fodelu a deall effaith buddsoddiadau sylweddol mewn seilwaith ar allyriadau carbon a'u heffeithiau ehangach, megis ble i adeiladu depo newydd a gwaith modelu i ddeall

yr opsiynau ar gyfer y fflyd mwyaf optimaidd yn y dyfodol. Bydd y gwersi hyn yn cael eu rhannu gyda chynghorau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn ehangach ledled Cymru. Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio defnyddio'r gwersi gan eraill wrth iddo ddatblygu ei gynlluniau, megis gwaith gyda'r sector preifat a chynghorau eraill yn Lloegr i ddatblygu Strategaeth Cerbydau Trydan.

36 Fe wnaethom nodi nifer o enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn datgarboneiddio, megis ei fferm solar 5MW, gosod paneli solar ar lawer o adeiladau'r Cyngor, ei fuddsoddiad mewn goleuadau stryd LED a'i raglen Ailosod i leihau costau ynni a charbon. Mae hefyd yn bwriadu creu tîm datgarboneiddio newydd i helpu i gyflawni ei gynllun datgarboneiddio, a fydd yn cael ei gyllido i ddechrau â'r incwm a gaiff ei greu trwy ei fferm solar. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn cynnal proses dendro ar gyfer ymgynghoriaeth allanol i gefnogi ei daith ddatgarboneiddio. Er ei fod wedi nodi y bydd angen buddsoddiad ychwanegol i wireddu ei uchelgais sero net, nid yw'r Cyngor wedi costio'i daith ddatgarboneiddio'n llawn nac adnabod yr adnoddau ar ei chyfer eto. Yn ogystal â hyn, bydd angen iddo sicrhau bod ei gamau gweithredu sero net yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a'i Strategaeth Gyfalaf.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.